The first of these, adding student and learner voice to the strategic framework, is the most important and most disappointing not to already be in the document. It places student and learner voice on the same footing as the continuing professional development of teaching assistants.

The second of these seeks to add student and learner voice as an initial condition of registration. We are seeking this as we believe student and learner voice should be considered by the Commission in the same manner as the other initial conditions. We do not accept that the principles of student and learner voice should be different at different levels of the post-compulsory sector – the practical realities will be different, but not the principles.

Both of these would sit squarely with the Welsh Government's own "Tertiary Education and Research Strategic Vision" document for the post-compulsory sector that states the Commission "will have the interests of learners at its heart".

We are supportive of the concept behind the Learner Engagement Code and look forward to working with the Commission in the future. However, the Bill does not go far enough to ensure that the Commission must be mindful of student and learner voice and that the providers and sector it regulates. The Bill is what sets the environment that the Commission will operate in. At the moment that environment is not sufficiently reflective of student and learner interests.

## Students written out of education

NUS Wales is opposed to the sole use of the word 'learner' in the draft Bill, rather than a standardised word or dual usage of student and learner. Students must not be written out of a Bill that will lay the foundations for the future of tertiary education for years to come. The most developed best practice on engagement, partnership and representation in the post-16 context uses the word 'student'. Sector bodies such as HEFCW, QAA, institutions, and representative bodies such as NUS and students' unions use the word 'student'. Practically, using the word 'learner' in this



context will lead to confusion and a dilution of students' identity and the student movement.

We strongly believe that to lose the word "student" so comprehensively would be more significant than the Welsh Government realises. The two words are not used interchangeably in the different sectors the Bill will cover.

While we accept that there are pedagogical arguments for the use of 'learner', this descriptor removes agency and implies that 'learners' exist only to learn. 'Learner' may reflect the Welsh Government's aim of embedding a lifelong understanding of the person as a learner, but it also defines them entirely through their course of study.

Being a learner is just one part of being a student or an apprentice: university students access housing, mental and physical health support and financial aid through their institution; college students are embedded in their communities and make use of local transport and sporting facilities; and apprentices often work for more hours than they receive training, usually below minimum wage without access to the same level support and advocacy as their peers in full-time education.

This could be easily amended in the Bill – currently the term "persons receiving tertiary education" is used and is shorthanded to "learner" – this could be amended to "student/learner" with little overall impact on the Bill.

Again, we have made these points previously and we would very disappointed if the language of the Bill failed to embrace the student experience with the proposals from reforming the future of the FE and HE system in Wales. Students as a cohort will feel that this Bill bears no relation to them, and that they are not even

part of the conversation, let alone central to overarching objectives of the Bill.

## Students at the heart of the system

After the UK government increased tuition fees at the beginning of the previous decade, it published a White Paper entitled '[Students at the Heart of the System](#)'; this was viewed with disdain by the student movement for the gap between its title and the reality of the reforms it consulted on.

Finally, the Bill currently states that students would have just one seat on the Commission for Tertiary Education and Research (CTER) that the Bill establishes – and a non-voting seat at that. This is one fewer than the tertiary education workforce, and the same number as CTER staff. This means the Bill would increase representation of everyone in the sector except for students. Given the size of CTER's remit, a broader range of student and learner voice should be given space at the table

For decades now, Wales has been far ahead of England on protecting and enhancing the student voice, but the draft Tertiary Education and Research (Wales) Bill at present does not place "students at the heart of the system".

## Contact

If you would like to discuss the contents of this briefing, please email [jeremy.harvey@nus-wales.org.uk](mailto:jeremy.harvey@nus-wales.org.uk).

## Annex 1 – Submitted Amendments

Part 1 Section 5 Section 2

Add -

“(c) the importance of the collective and individual voices of learners and students in the management and delivery of provision”

Part 2 Chapter 1 Section 25 Subsection 1

Add -

“(d) the effectiveness of the learner and student voice structures of the applicant tertiary education provider”

# Eitem 8

CYPE(6)-07-21 – Papur 7

**Tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

## 1. Cyffredinol

- 1.1 Yn gyffredinol rydym yn cefnogi sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae'r dyhead i ddatblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol mwy effeithiol a chydlynol yn un sy'n cynnig cyfleoedd amlwg i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'n bwysig bod y dyheadau hyn yn cyd-fynd ag amcanion Strategaeth Cymraeg 2050.
- 1.2 Fodd bynnag, mae gwaith sylweddol i'w wneud i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol. Amlygodd fy [Adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg](#) fod ystadegau'r pum mlynedd diwethaf yn dangos mai ychydig iawn o gynnydd gwirioneddol sydd wedi bod mewn perthynas ag amcanion creiddiol Cymraeg 2050 yn y sector. Yn hanesyddol nid yw darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y sector addysg ôl-orfodol wedi derbyn yr un buddsoddiad a'r pwyslais strategol o gymharu â'r sector addysg statudol. Mae'r sefyllfa hon wedi newid gryn dipyn yng nghyd-destun y sector addysg uwch ers ffurfio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011, ond mae'n deg dadlau bod angen mynd ymhellach, yn enwedig o ran darpariaeth addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Mae sefydlu'r Comisiwn felly yn cynnig cyfle i bwysu a mesur y sefyllfa gyfredol, ac i osod fframweithiau a threfniadau mwy cadarn er mwyn sicrhau bod y sector ôl-orfodol yn ei gyfanrwydd yn cymryd camau breision i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

## 2. Darpariaethau'r Bil ar gyfer y Gymraeg

### 2.1 Dyletswyddau'r Comisiwn

Ar y cyfan, rydym yn croesawu'r dyletswyddau a roddir ar y Comisiwn yn Rhan 1, 8 y Bil i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg; i annog pobl i gymryd rhan mewn addysg drydyddol a ddarperir yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg; i annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru, a gan bersonau eraill sy'n darparu addysg drydyddol a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo. Rydym fodd bynnag yn bryderus am eiriad y ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb galw rhesymol.

### 2.2 Pob cam rhesymol ac ateb galw rhesymol

Nid yw'n ddigonol nodi y bydd rhaid i'r Comisiwn gymryd 'pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw rhesymol'. Mae'r ffaith bod darpariaeth addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn gyfyngedig iawn yn y gorffennol yn golygu bod angen mynd ati i hyrwyddo'r ddarpariaeth ac i annog unigolion i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Heb ganolbwyntio ar hyn, mae perygl y bydd 'ateb y galw rhesymol' yn arwain at ddiffyg cynnydd. Credwn felly y bydd angen i'r Comisiwn fod â ffocws strategol

pendant ar annog a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn enwedig yn y tymor byr a chanolig. Yn y cyd-destun hwn dylid canolbwyntio yn benodol ar ddilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a hefyd werth sgiliau dwyieithog yn y byd gwaith yng Nghymru. Rydym felly yn cynnig y dylid newid geiriad y ddeddf i roi'r ddyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau bod darpariaeth addysg drydyddol yn galluogi holl ddysgwyr/myfyrwyr Cymru i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o addysg statudol i addysg drydyddol. Mae hyn yn hollbwysig o ystyried y weledigaeth y bydd y sector yn cyfrannu'n sylweddol at ffyniant a lles cenedlaethol ac unigolion, gan y bydd sgiliau dwyieithog yn cynyddu cyflogadwyedd pobl.

### **2.3 Cyllid**

Deallwn y gall Gweinidogion Cymru ddyrannu adnoddau ariannol i'r Comisiwn mewn perthynas â phob categori o addysg drydyddol ac y bydd y Comisiwn yn gallu dyrannu cyllid i ddarparwyr ar gyfer darparu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg ac i ddarparwyr ar gyfer addysgu'r Gymraeg. Rydym yn gefnogol o'r gallu hwn i ddyrannu cyllid ond credwn fod angen ystyried y dulliau gorau o wneud hynny o safbwynt allbwn y ddarpariaeth yn sicrhau bod pobl yn cynnal a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg trwy Gymru gyfan.

### **2.4 Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Rydym yn cefnogi'r gofyn ar y Comisiwn wrth sicrhau addysg bellach a hyfforddiant yn Rhan 3, 93, 1 (d) o safbwynt datblygu'r gweithlu i roi sylw i'r addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cyflogeion a chyflogeion posibl ar gael sy'n gallu cyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg; ac (e) i roi sylw i'r addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cyfleusterau ar gael ar gyfer asesu drwy gyfrwng y Gymraeg a oes gan bersonau anghenion dysgu ychwanegol.

### **2.4 Chweched dosbarth a darpariaeth Gymraeg yn lleol**

Deallwn fod addysg drydyddol er pwrpas y Bil yn cwmpasu chweched dosbarth. Yn wyneb diffyg darpariaeth Gymraeg yn y sector ôl-16 yn ehangach, mae lle pwysig i ddsbarthiadau chweched dosbarth mewn ysgolion Cymraeg wrth gynnal a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion sydd wedi derbyn eu haddysg statudol drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfrannu at ethos Gymraeg yr ysgolion hynny. Bydd angen i'r Comisiwn fod â dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd chweched dosbarth mewn ysgolion Cymraeg felly.

2.5 Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am ddyrannu cyllid ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Bwriedir rhoi'r gallu i'r Comisiwn, mewn amgylchiadau penodol, gyfarwyddo awdurdod lleol neu fwrdd llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol i agor neu gau chweched dosbarth mewn ysgol, neu wneud cynigion yn unol â chyfarwyddyd o'r fath. Bwriedir ymgynghori ar yr amgylchiadau a'r cyfyngiadau ar yr hyn a allai sbarduno'r Comisiwn i gyfarwyddo awdurdod lleol i gyflwyno cynigion a'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol. Ein gobaith yw y bydd y systemau a'r prosesau hyn yn gwarchod ac yn hyrwyddo'r ddarpariaeth chweched dosbarth bresennol cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion Cymraeg.

- 2.6 Yn 13.32 ac 13.33 y memorandwm esboniadol eglurir y berthynas rhwng y Comisiwn â darparwyr ac awdurdodau lleol. Eglurir y cyflawnir y berthynas gan mwyaf, drwy negodi cytundebau deilliannau (ac eithrio lle mae'r ddarpariaeth a gwasanaethau'n cael eu sicrhau drwy gontractau). Eglurir y rhagwelir y bydd y rhain, i bob pwrpas, yn "gontractau perfformiad" i'w negodi rhwng y Comisiwn a darparwyr sy'n derbyn cyllid rheolaidd, a rhwng y Comisiwn ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'r cyllid a ddyrennir ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth ysgolion. Mae cyfle amlwg yma i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn rhan o'r contractau perfformiad hyn.
- 2.7 Eglurir yn 3.268 y memorandwm esboniadol y bydd 'y Comisiwn yn gyfrifol am lunio cwricwla lleol yn unol â'i gyfrifoldebau i gynllunio a chyllido addysg a hyfforddiant ôl-16 a sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer dysgwyr 16 i 19.' O safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mae'n debygol y bydd darparwyr addysg drydyddol, ar lefel leol beth bynnag, yn cystadlu i raddau am yr un dysgwyr a hefyd am gyllid gan y Comisiwn a'i bod yn bosibl y bydd chweched dosbarth a darparwyr addysg bellach yn cystadlu felly am yr un myfyrwyr ac adnoddau. Mae angen deall sut y bydd y contractau perfformiad a'r egwyddor o gwricwla lleol y bydd y Comisiwn yn ei lunio yn gweithio yn ymarferol o safbwynt darpariaeth Gymraeg yn lleol ac yn rhanbarthol felly. Bydd rhaid i unrhyw drefniadau a weithredir yn lleol hyrwyddo darpariaeth Gymraeg a bydd angen i'r Comisiwn fod â thystiolaeth gadarn a dealltwriaeth fanwl o'r ddarpariaeth ôl-16 yn lleol a dealltwriaeth o'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal. Byddem felly â diddordeb mewn gwybod sut y bydd y Comisiwn yn datblygu dealltwriaeth fanwl a lleol o'r fath ac yn cydweithio â phartneriaid allweddol yn y cyswllt hwn. Dylid ystyried hefyd beth yw perthynas gwaith y Comisiwn yn datblygu cwricwla lleol â [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\) 2019](#), yn benodol adrannau 13 ac 14 o Atodlen y rheoliadau.

## 2.8 Safonau'r Gymraeg

Croesawn y bwriad y bydd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 yn cael eu diwygio i gynnwys y Comisiwn newydd. Mae'n hollbwysig bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'r safonau o'r cyfle cyntaf posibl. Gwelwn yn ogystal y bydd y gofyniad i'r Comisiwn gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yn atgyfnerthu'r ddyletswydd sydd ar y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 3. Addysg drydyddol Gymraeg yn sgil y Bil

- 3.1 Er ein bod ar y cyfan yn croesawu cynnwys y Bil o safbwynt y Gymraeg mae'n debyg mai'r hyn fydd yn deillio o'r Bil fydd yn wirioneddol arwyddocaol o ran cyflawni'r amcanion lefel uchel sydd wedi'u cynnwys. Hynny yw, y mater allweddol fydd y gwaith o weithredu'r Bil, a sicrhau bod amcanion a gweledigaeth y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael eu gwireddu ar lawr gwlad. Credwn fod dau fater yn allweddol yn y cyd-destun hwn:
- i. Sicrhau cyfeiriad strategol eglur a threfniadau atebolrwydd cadarn wrth sefydlu blaenoriaethau Gweinidogion Cymru, cynllun strategol y Comisiwn, ac yn amodau cofrestru a chytundebau deilliannau darparwyr addysg drydyddol.

- ii. Sicrhau cyd-weithio effeithiol rhwng y Comisiwn a sefydliadau fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

- 3.2 Mae'r fframwaith strategol sy'n cael ei gynnig yn y Bil o ran gosod cyfeiriad i waith y Comisiwn a darparwyr addysg drydyddol yn un sy'n gyffredin mewn sawl maes polisi gwahanol. Bydd Gweinidogion Cymru yn gosod cyfeiriad strategol drwy gyhoeddi blaenoriaethau ar gyfer gwaith y Comisiwn, bydd y Comisiwn yn llunio cynllun strategol yn seiliedig ar hyn, ac yn ei dro bydd y cynllun strategol hwn yn sail ar gyfer cyllido a threfnu darpariaeth addysg drydyddol, ac er mwyn adolygu ansawdd a pherfformiad y ddarpariaeth. Nid ydym yn anghytuno â'r fframwaith hwn, ond bydd angen i bob cam o'r fframwaith strategol roi sylw dyledus i faterion yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y mater allweddol fydd sefydlu trefniadau monitro ac atebolrwydd cadarn er mwyn sicrhau bod y weledigaeth a'r amcanion lefel uchel yn arwain at newidiadau gwirioneddol ar lefel darparwyr o safbwynt y Gymraeg. Credwn y bydd y broses o lunio cynllun strategol y Comisiwn, a rôl cytundebau deilliannau ym mherthynas y comisiwn â'r darparwyr yn hollbwysig yn y cyd-destun hwn. Efen arall hollbwysig fydd sicrhau y cesglir data mewn dull sy'n adlewyrchu gwir ddeilliannau ieithyddol myfyrwyr wrth iddynt ddilyn darpariaeth yn y sector a hynny er budd mesur llwyddiant a chynllunio a datblygu'r ddarpariaeth o fewn cyd-destun gweledigaeth Strategaeth Cymraeg 2050.
- 3.3 Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd gan y Comisiwn ddyletswydd i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd yn nodi'r ffaith y bydd rôl allweddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn y sector hwn yn parhau. Mae'r memorandwm esboniadol yn egluro y bydd Gweinidogion Cymru yn cyllido'r sefydliadau hyn yn uniongyrchol yn y tymor byr a chanolig. Eglurir fod Llywodraeth Cymru o'r farn pe bai'r cyllid ar eu cyfer yn cael ei ddyrannu i'r Comisiwn, y byddai risg sylweddol o golli'r cynnydd a wnaed gan y sefydliadau hyn o ran datblygu capasiti darparwyr i ddarparu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Bydd rhaid sicrhau fod y cyllid sy'n cael ei ddarparu i'r ddau sefydliad hyn yn ddigonol felly er mwyn iddynt gyflawni amcanion y Bil hwn, ac amcanion mwy cyffredinol strategaeth Cymraeg 2050. Fodd bynnag, nodir y risg yn y memorandwm esboniadol pe bai Gweinidogion Cymru'n parhau i ddarparu cyllid i'r Coleg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y gallai hyn arwain at ddyblygu gwaith a defnydd aneffeithiol o adnoddau. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i sicrhau fod y berthynas rhwng y Coleg a'r Ganolfan a'r Comisiwn yn glir a bod eglurder o ran rôl a chyfrifoldebau'r gwahanol sefydliadau. Bydd rhaid sicrhau bod modd cefnogi ac atgyfnerthu arbenigedd y Coleg a'r Ganolfan, ond hefyd sicrhau bod materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu prif ffrydio mewn i waith y Comisiwn, ac yn cael eu hystyried fel rhan greiddiol o swyddogaeth y Comisiwn.

**Papur safbwynt gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar  
gyfer Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru  
ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**17 Tachwedd 2021**

**Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011. Y Coleg sy'n arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru. Mae'r Coleg yn cyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth â phrifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau er mwyn adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg cynhwysol o'r radd flaenaf. Er mwyn darganfod mwy am y Coleg ewch i: [www.colegcymraeg.ac.uk](http://www.colegcymraeg.ac.uk).

Gwnaed y penderfyniad i sefydlu'r Coleg gan Lywodraeth Cymru ar y pryd yn 2007 yn wyneb yr angen am gorff cynllunio annibynnol yn y sector addysg uwch i ganolbwyntio'n benodol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Roedd y penderfyniad i ymestyn ei gyfrifoldebau i addysg bellach a phrentisiaethau yn 2017/18 yn gydnabyddiaeth pellach o'r angen i gorff penodol gydag arbenigedd yn y maes gael cyfrifoldeb strategol mewn perthynas â'r Gymraeg, yn wyneb y ffaith na all cyrff sydd a lluo o ddyletswyddau eang a phwysig eraill gyflawni'r rôl hon na meddu ar yr arbenigedd a'r profiad i wneud hynny. Mae'r angen hwn o ran gwaith y Coleg yn y maes addysg uwch yn parhau ac megis dechrau mae ein gwaith ym maes addysg bellach a phrentisiaethau.

Mae'r Coleg yn sefydliad annibynnol ac yn elusen gofrestredig. Mae'n meddu ar strwythur llywodraethiant cryf, ac mae ganddo fwrdd yn cynnwys cadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod a benodir drwy broses o hysbysebu agored.

## **Crynodeb o safbwynt y Coleg ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

### **Yn gyffredinol:**

Mae'r Coleg yn cefnogi'r bwriad i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac yn edrych ymlaen at gefnogi'r gwaith o sefydlu a gwreiddio'r corff newydd mewn modd fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol.

Tra'n cydnabod bod rhywfaint o darfu yn anochel wrth ddiddymu corff sydd eisoes yn bodoli a symud dyletswyddau eraill sydd ar hyn o bryd yn gorwedd gyda'r Llywodraeth i mewn i gorff newydd, dylid gwneud pob ymdrech posib i osgoi cyfnod amhenodol o ansicrwydd allai lesteirio cynnydd yn y meysydd dan sylw.

### **Cyfrifoldebau'n ymwneud â'r Gymraeg a pherthynas y Comisiwn gyda'r Coleg:**

Nodwn fod cyfrifoldebau wedi eu gosod yn y Bil ar y Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg a bod rhagor o fanylion wedi eu hamlinellu yn yr [Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg](#) gan gynnwys y ffaith mai'r Comisiwn, ar y cyd â'r Coleg, fydd yn gyfrifol am ddatblygiadau cyfrwng Cymraeg mewn addysg drydyddol. Credwn y dylid ystyried cynnwys rhai o'r pwyntiau a wneir yn yr asesiad effaith ar wyneb y bil er mwyn pwysleisio'r disgwyliad bod y Comisiwn yn gweithredu'n rhagweithiol, yn hytrach nag yn oddefol i wireddu strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ac yn cydweithio ar lefel strategol gyda'r Coleg i gyflawni hyn.

Ar dudalennau 126-29 o'r [Memorandwm Esboniadol](#) amlinellir cyfrifoldebau llawn y Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg. Tra'n croesawu'r ffaith fod hyn wedi ei gynnwys yn ddiamwys, mae'r rhan fwyaf o'r dyletswyddau hyn eisoes yn rhan o gyfrifoldebau'r Coleg, ac yn gynyddol felly ers ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i gynnwys y sector ôl-16. Mae'r angen am gorff penodol gyda'r arbenigedd angenrheidiol i weithredu dros y Gymraeg a dwyieithrwydd yn y meysydd addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau yn parhau mor allweddol ag erioed ac felly dylid ystyried yn ofalus i ba raddau mae'r Bil a'r ddogfennaeth gysylltiedig yn adlewyrchu hynny'n ddiamwys.



Mae'r Coleg yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o gyrff sy'n meddu ar ddyletswyddau statudol, gan gynnwys Cyngor y Gweithlu Addysg, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Cymwysterau Cymru ac Estyn, yn ogystal â Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Yn achos CCAUC, mae MoU gyda'r Coleg i hwyluso cydweithio effeithiol. Hyderwn y bydd y ffyrdd effeithiol o weithio sydd eisoes wedi eu sefydlu yn sail cryf ar gyfer creu perthynas gref ac effeithiol gyda'r Comisiwn newydd, ond wrth ddatblygu'r berthynas weithio newydd awgrymir y byddai'n fuddiol sicrhau mwy o ymwneud uniongyrchol ar ran y Coleg gyda phrosesau cynllunio, a sicrhau fod cyfrifoldebau cyllido perthnasol wedi eu dirprwyo i'r Coleg, yn unol â'r trefniadau presennol ar gyfer addysg uwch a'r model sydd yn esblygu ar gyfer addysg bellach a phrentisiaethau.

### **Trefniadau cyllido'r Coleg:**

Nodwn bod y Bil yn cydnabod y dylai'r Coleg barhau i gael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a chrosawn yr ymrwymiad hwn yn fawr iawn. Mae derbyn cyllideb yn uniongyrchol gan y Llywodraeth yn tanlinellu pwysigrwydd y maes ôl-orfodol i'r strategaeth iaith hir-dymor ac ni ddylid tanseilio hyn mewn unrhyw ffordd. Mae'n aneglur ar y pwynt hwn pam fod cyfnod tymor byr i ganolig wedi ei nodi ar gyfer y model hwn o gyllido yn y Memorandwm Cysylltiedig, o ystyried bod amcanion strategaeth iaith y Llywodraeth yn rhai tymor hir wrth gyrchu tuag at greu miliwn o siaradwyr a dyblu defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050.

### **Ymchwil a'r Gymraeg:**

Crosawn y disgwyliad y byddai'n rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac y byddai'n rhaid felly iddo ystyried y Gymraeg yn ei holl weithgareddau. Nodwn y byddai hynny yn ymestyn i feysydd nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â darpariaeth, megis ymchwil academiaidd.

### **Materion cysylltiedig eraill:**

Wrth gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru wrth sefydlu'r Comisiwn yr ydym yn ymwybodol fod rhai materion yn codi sydd angen sylw. Yn dilyn ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i'r sector ôl-16, er enghraifft, rydym yn ymwybodol o faterion

sydd wedi eu codi gan gydweithwyr yn y sector mewn perthynas â'r berthynas rhwng ysgolion a cholegau o ran darpariaeth Safon Uwch. Mae hwn yn fater cymhleth a sensitif mewn perthynas â'r Gymraeg a byddem yn dymuno cael sicrwydd y gwneir pob ymdrech i sicrhau na fyddai penderfyniadau yn cael eu cymryd a allai arwain at ganlyniadau nas rhagwelwyd. Mae'r Coleg eisoes yn cefnogi'r Llywodraeth i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc. Byddem yn barod i ymestyn y gwaith hwn yn amodol ar adnoddau digonol.

Dylid rhoi ystyriaeth ar y pwynt hwn hefyd i berthynas y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil gyda'r Bil arfaethedig ar Addysg Gymraeg sydd yn elfen bwysig arall o raglen y Llywodraeth hwn. Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi datgan yn gyhoeddus y rhoddir ystyriaeth i osod rôl y Coleg ar sail statudol yn y bil hwnnw ac felly dylid gochel rhag cyfyngu ar y potensial i gyflawni hynny yn y Bil Addysg Drydyddol.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Gwenllian Griffiths, Prif Swyddog  
Ymgysylltu'r Coleg ar [g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk](mailto:g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk)**

# Eitem 9.1

CYPE(6)-07-21 – Papur i'w nodi 1

**Jeremy Miles AS/MS**  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government  
12 Tachwedd 2021

Paul Davies AS  
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Annwyl Paul

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Hydref ynghylch melinau traethodau. Cytunaf fod melinau traethodau yn hwyluso llên-ladrad, yn manteisio ar fyfyrwyr bregus ac yn gallu normaleiddio twyllo. Rwyf hefyd yn cydnabod bod rhywfaint o ymchwil wedi dangos y gallai myfyrwyr sy'n defnyddio melinau traethodau fod yn agored i flacmel. Mae'n amlwg bod y gwasanaethau twyllo hyn yn fygythiad i uniondeb ac enw da addysg brifysgol.

Efallai eich bod yn ymwybodol bod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn mynd ar drywydd datblygu rhwydwaith uniondeb ac asesu academiaidd yng Nghymru. At hynny, lansiodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) y Siarter Uniondeb Academiaidd ym mis Hydref 2020. Yng ngeiriau'r QAA ei hun, bwriedir i'r siarter ddarparu sylfaen y gall darparwyr y DU, fel sefydliadau annibynnol, ei defnyddio i adeiladu eu polisiau a'u harferion eu hunain i sicrhau bod cymhwyster pob myfyriwr yn ddilys, yn wiriadwy ac yn cael ei barchu. Rwy'n arbennig o falch bod pob prifysgol yng Nghymru wedi llofnodi'r siarter, gan ddangos eu hymrwymiad i'r mater hwn.

Cytunaf y byddai dull gweithredu ledled y DU yn synhwyrol ac rydym wedi bod yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater hwn, ac mae swyddogion o bob un o'r pedair llywodraeth wedi cwrdd i'w drafod. Fodd bynnag, nid oedd bwriad i ddeddfu ar gyfer Cymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon yn y Mesur Sgiliau ac Addysg Ôl-16 sydd ar y gweill. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill i weld a oes modd cael ateb ar gyfer y DU gyfan. Rwyf hefyd yn ystyried sut y gallwn ni yng Nghymru fynd i'r afael â'r broblem hon ochr yn ochr â dull gweithredu ar gyfer y pedair gwlad neu os nad yw dull o'r fath yn bosibl ar hyn o bryd.

Rwy'n gobeithio bod yr uchod wedi helpu i egluro fy safbwynt ar y mater pwysig hwn ac rwy'n gobeithio y bydd gennyf fwy i'w ddweud maes o law.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 108

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

CYPE(6)–07–21 – Papur i'w nodi 2

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**  
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru

[SeneddLJC@senedd.cymru](mailto:SeneddLJC@senedd.cymru)

15 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

## **Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yng Nghymru**

Rwy'n ysgrifennu'n unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu am 36ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig y byddaf yn ei chynnal yng Nghymru yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Cynhelir yr Uwchgynhadledd mewn fformat hybrid, gyda chynrychiolwyr yn mynychu'n rhithwir ac yn bersonol. Bydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a minnau yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'r cyfle arferol am ddiweddariad cyffredinol ar faterion, bydd yr Uwchgynhadledd yn canolbwyntio ar gefnogi addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant o fewn cymunedau leithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd (IML).

Cyn yr Uwchgynhadledd bydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cynnal trafodaeth rithwir i Weinidogion ar gaffael leithoedd IML yn y blynyddoedd cynnar.

Bydd hysbysiad yn cael ei gytuno gan y Cyngor yn yr Uwchgynhadledd yn cynnwys manylion y trafodaethau a gynhelir yn yr Uwchgynhadledd a thrafodaeth weinidogol y sector gwaith leithoedd IML. Byddaf yn ysgrifennu unwaith eto yn dilyn yr Uwchgynhadledd i rannu'r rhain gyda chi. Byddaf hefyd yn diweddarau'r Senedd gyda datganiad ar yr Uwchgynhadledd yr wythnos nesaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc  
ac Addysg**

**Children, Young People  
and Education Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
Senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

**Senedd Cymru**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565

Elin Jones AS

Llywydd

Dyddiad: 16 Tachwedd 2021

Pwnc: Hyfforddiant diogelu

Annwyl Elin,

Mae'n ymddangos yn briodol ysgrifennu atoch yr wythnos hon, yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu, i rannu ein profiadau o hyfforddiant diogelu. Yn ddiweddar, gwnaethom gwblhau'r cwrs cyflwyniad dwy ran i Ddiogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru a ddarparwyd gan yr NSPCC. Roedd y penderfyniad i wneud yr hyfforddiant hwn yn un o'r rhai cyntaf a wnaethom fel Pwyllgor. Roeddem yn credu ei bod yn bwysig ar lefel ymarferol, i'n helpu i wybod beth y dylem ei wneud pe baem ni'n dod ar draws unrhyw bryderon diogelu yn ystod gwaith ein Pwyllgor; a hefyd fel datganiad o ba mor bwysig a hanfodol yw diogelu yn ein barn ni i unrhyw un sy'n dod i gyswllt â phlant a phobl ifanc.

Roedd yr hyfforddiant yn ardderchog; ac roedd hyd yn oed yr Aelodau hynny a oedd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu o'r blaen yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol yng nghyd-destun eu rôl fel AS. Yn ôl a deallwn, nid oes unrhyw ffordd o wneud hyfforddiant yn orfodol i bob AS. Fodd bynnag, hoffem annog ein holl gydweithwyr i fanteisio ar y cyfle i ymgymryd â hyfforddiant diogelu. Rydym hefyd yn cyhoeddi datganiad (amgaeedig) i'r perwyl hwn.

Rydym yn ymwybodol bod hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu gan amrywiaeth o wahanol ddarparwyr yng Nghymru, ac y gall y tîm Dysgu ac Ymgysylltu ag Aelodau yn y Senedd gefnogi naill ai AS unigol neu grwpiau o ASau i ymgymryd â'r hyfforddiant. Rydym yn deall bod y tîm hwn, fel rhan o'r Wythnos Genedlaethol Diogelu, yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i ddysgu mwy am ddiogelu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at arweinwyr y pleidiau, a Jane Dodds AS. Rydym yn gwybod y gall arweinwyr y pleidiau chwarae rhan bwysig wrth annog aelodau o'u grwpiau i ymgymryd â hyfforddiant o'r fath.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS  
Cadeirydd

Copi at:

Mark Drakeford AS

Paul Davies AS

Adam Price AS

Jane Dodds AS

Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

We welcome correspondence in both English and Welsh



## Pwysigrwydd hyfforddiant a gwybodaeth Diogelu

16 Tachwedd 2021

### **Pwysigrwydd hyfforddiant a gwybodaeth Diogelu**

Yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu (15-19 Tachwedd 2021), rydym yn galw ar ein cyd-Aelodau o'r Senedd i fanteisio ar gyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant diogelu.

Fel Pwyllgor, un o'r penderfyniadau cyntaf a wnaethom oedd cwblhau cwrs cyflwyniad i Ddiogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru. Fe wnaethom flaenoriaethu hyn oherwydd roeddem am sicrhau, yn ystod ein gwaith Pwyllgor, neu yn ein gwaith ehangach fel Aelodau unigol, bod gennym y wybodaeth a'r hyder i gymryd y camau cywir, pe byddem yn wynebu pryderon o ran diogelu.

Cwblhaodd holl Aelodau'r Pwyllgor yr hyfforddiant hwn. Roedd yn hynod ddefnyddiol ac addysgiadol i bob un ohonom. Er bod rhai ohonom wedi cwblhau hyfforddiant diogelu mewn rolau blaenorol, roedd gwneud hyfforddiant a oedd yn edrych ar y cyd-destun penodol, sydd yn aml yn unigryw, o sut y gallai materion diogelu godi yn ein rolau fel AS yn bwysig. Mae gan wleidyddion etholedig fel ni rôl unigryw sydd yn freintiedig yn aml yn y gymdeithas. Rydym yn dod i gyswllt â llawer o blant a phobl ifanc, a dylem i gyd fod â'r wybodaeth i wybod beth i'w wneud os oes gennym bryderon o ran diogelu yn ystod y cyswllt hwnnw.

Rydym bellach yn teimlo'n fwy parod i wneud hyn, a byddem yn annog ein holl gyd-Aelodau i chwilio am gyfleoedd hyfforddi o'r fath.

### **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.**

Jayne Bryant AS (Cadeirydd)

James Evans AS

Siân Gwenllian AS

Laura Anne Jones AS

Ken Skates AS

Buffy Williams



# Eitem 9.4

CYPE(6)-07-21 – Papur i'w nodi 4

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### Children, Young People and Education Committee

#### Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

#### Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dyddiad | Date: 19 Tachwedd 2021

Pwnc | Subject: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Annwyl Jeremy,

Yng nghyfarfod ein Pwyllgor ar 18 Tachwedd, trafodom y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn. Mae gennym nifer o gwestiynau i'n helpu gyda'n trafodaethau.

Gan fod yn rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm hwn erbyn 15 Rhagfyr, byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl, a dim hwyrach na dydd Gwener 26 Tachwedd, er mwyn ein galluogi i'w ystyried yn ein cyfarfod ddydd lau 2 Rhagfyr.

*Cymalau 1 (Cynlluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)*

Mae paragraff 15 o'r Memorandwm Atodol yn nodi bod diwygiadau a wnaed i gymalau 1 a 4 o'r Bil "yn cynyddu'r posibilrwydd y gallai sefydliadau yng Nghymru fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar gyfer Lloegr." Gan na ddarperir rhagor o fanylion yn y Memorandwm Atodol ynghylch sut, yn ymarferol, y bydd y diwygiadau yn cael yr effaith hon, a allwch ddarparu'r manylion hyn i ni?

Mewn gohebiaeth flaenorol â'r Pwyllgor, fe wnaethoch awgrymu bod trafodaethau cynhyrchiol ar lefel y swyddogion wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â diwygio'r cymalau hyn yn y Bil. Mae'r Memorandwm Atodol yn cadarnhau nad yw'r diwygiadau a wnaed yn mynd i'r afael â'ch pryderon. A allwch egluro pam mae trafodaethau o'r fath wedi arwain at wneud diwygiadau i'r Bil nad ydynt yn mynd i'r afael â'ch pryderon? A allwch gadarnhau a oes trafodaethau pellach yn mynd rhagddynt gyda'r Adran Addysg ac, os felly, a ydynt yn debygol o arwain at wneud diwygiadau i'r Bil sy'n mynd i'r afael â'ch pryderon?



A allwch ddarparu rhagor o eglurder o ran manylion y diwygiadau y byddai angen i chi eu gweld yn cael eu gwneud i'r Bil er mwyn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad i gymalau 1 a 4 o'r Bil?

*Cymal 25 newydd [Darparu cyfleoedd ar gyfer addysg a meithrin sgiliau]*

Fe wnaethom nodi bod cymal 25 newydd wedi'i fewnosod i'r Bil. Mae'r cymal hwn yn darparu bod gan unrhyw berson o unrhyw oedran yr hawl i gael addysg am ddim ar gwrs cymeradwy hyd at Lefel 3 a gyflenwir gan ddarparwr addysg bellach neu dechnegol cymeradwy, os nad yw eisoes wedi astudio ar y lefel honno; a bod yn rhaid darparu cyllid i'r darparwr cymeradwy at y diben hwnnw. Mae hefyd yn gosod gofynion ar gyflogwyr mewn perthynas â gwario arian ar gyfer pobl ar brentisiaethau sydd o dan 25 oed.

Er bod y Nodiadau Esboniadol yn nodi y bwriedir i'r cymal hwn fod yn gymwys i bobl yn Lloegr, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu ar wyneb y Bil. A allwch gadarnhau a ydych o'r farn bod angen cydysyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chymal 25 o'r Bil ac, os ddim, pam lai?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 9.5

CYPE(6)-07-21 - Papur i'w nodi 5

**Jeremy Miles AS/MS**

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language

Ein cyf/Our ref JMEWL/4025/21



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru

[SeneddPlant@senedd.cymru](mailto:SeneddPlant@senedd.cymru)

Annwyl Jayne

25 Tachwedd 2021

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) (SLCM Rhif 2) ar gyfer Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 y DU ("y Bil") a osodwyd ar 29 Hydref. Codwyd ymholiadau gennych mewn perthynas â'r ddarpariaeth a wneir gan gymalau 1 a 4 a chan gymal 25 o'r Bil. Rwyf wedi ymateb isod.

## **Cymalau 1 (cynlluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)**

Effaith y gwelliannau a wnaed i gymalau 1 a 4 o'r Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref oedd cynyddu'r posibilrwydd y gallai sefydliadau Cymru fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar gyfer Lloegr. Mae'r gwelliannau i gymal 1 yn cyfyngu ar yr addysg a'r hyfforddiant o fewn cwmpas y dyletswyddau mewn perthynas â'r cynlluniau gwella sgiliau lleol i hyfforddiant ac addysg dechnegol ôl-16 "a ariennir gan Loegr" ("*English funded*"). Er hyn, mae'r gwelliannau i gymal 4 sy'n diffinio "a ariennir gan Loegr" yn cynnwys cymorth i fyfyrwyr a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn fy nhyb i, gallai effaith gyfunol y gwelliannau hyn o bosibl olygu bod cyrsiau sefydliadau yng Nghymru, yr ymgymerir â hwy gan fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr ac sy'n cael cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth y DU, yn cael eu hystyried yn berthnasol i anghenion sgiliau ardal leol yn Lloegr. Mae'r Bil yn darparu, pan fo addysg dechnegol ôl-16 yn berthnasol i ardal leol yn Lloegr, yna mae sefydliadau sy'n darparu'r addysg honno yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol a nodir yng nghymal 1(3), 1(4) ac 1(5). Mae'r ffaith bod cymorth ariannol i fyfyrwyr wedi'i gynnwys yn niffiniad darpariaeth "a ariennir gan Loegr" yn peri pryder penodol gan y gallai'r dull hwn olygu bod ystod eang o hyfforddiant ac addysg ôl-16 a gynigir gan sefydliadau yng Nghymru yn dod o fewn cwmpas y dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol.

Mae fy swyddogion wedi bod yn ymwneud â swyddogion Adran Addysg Llywodraeth y DU ers misoedd ac maent wedi cael trafodaethau cynhyrchiol mewn perthynas â chymhwyso cymalau 1 a 4 i sefydliadau yng Nghymru. Roedd y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi yn welliant o gymharu â'r Bil fel y'i cyflwynwyd hyd yma gan eu bod yn pennu cysylltiad â chyllido darpariaeth ôl-16 gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, nid oedd y gwelliannau'n mynd i'r afael yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

## **Tudalen y pecyn 116**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddigonol â'r mater sylfaenol sy'n peri pryder, sef y dyletswyddau statudol a osodir ar sefydliadau yng Nghymru nad ydynt, yn fy nhyb i, yn angenrheidiol nac yn gymesur. Mae cymesuredd a'r tebygolrwydd y bydd sefydliadau yng Nghymru yn darparu addysg dechnegol ôl-16 a ystyrir yn berthnasol i ardal leol yn Lloegr yn faterion a godwyd gan fy swyddogion pan gawsant weld y gwelliannau drafft yn gynnar ym mis Hydref. Er hyn, nid oedd amserlen Llywodraeth y DU ar gyfer cwblhau eu gwelliannau ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn caniatáu ar gyfer dadansoddi'r gwelliannau'n llawn na'u hailddrafftio cyn iddynt gael eu cyflwyno.

Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ar 29 Hydref yn amlinellu fy mhryderon, gan nodi mai diben cynlluniau gwella sgiliau lleol yw sicrhau bod addysg ôl-16 ar gael i ddiwallu anghenion sgiliau cyflogwyr mewn ardaloedd penodedig yn Lloegr, a bod gosod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau yng Nghymru mewn perthynas â'r cynlluniau hyn yn ddiangen. Hysbysais yr Ysgrifennydd Gwladol yr hoffwn weld gwelliannau'n cael eu cyflwyno i gael gwared ar y dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar sefydliadau yng Nghymru.


Mae trafodaethau wedi'u cynnal ar lefel swyddogol ac mae llawer o gynnydd wedi'i wneud yn yr wythnosau diwethaf i fynd i'r afael â fy mhryderon. Rwy'n falch o allu rhoi gwybod ichi fod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Mae'r gwelliannau hynny'n mynd i'r afael â fy mhryderon ac maent ar gael yma: [skills.pbc.rm.1124.fm \(parliament.uk\)](https://skills.pbc.rm.1124.fm/parliament.uk). Rwy'n bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach cyn gynted â phosibl i adlewyrchu'r gwelliannau hyn.

### **Cymal 25 (Sefydliadau yn y sector addysg bellach: gweithdrefn ddynodi)**

Ychwanegwyd cymal 25 at y Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 24 Tachwedd ar gyfer Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn ceisio dileu'r cymal hwn o'r Bil.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS**

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language

# Eitem 9.6

CYPE(6)-07-21 – Papur i'w nodi 6

Eluned Morgan AS  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AS  
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Social Services

Lynne Neagle AS  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant  
Deputy Minister for Mental Health & Wellbeing



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/EM/2870/21

Jayne Bryant AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

22 Tachwedd 2021

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Hydref yn dilyn sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 7 Hydref.

Rydym wedi mynd i'r afael â phob un o gwestiynau ychwanegol y Pwyllgor fel a ganlyn:

## **STRATEGAETH IECHYD PLANT**

Mae iechyd plant yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Dylai plant a phobl ifanc fod wrth wraidd gwasanaethau rhagorol ac integredig sy'n rhoi eu hanghenion yn gyntaf, waeth beth fo'u strwythurau sefydliadol a phroffesiynol traddodiadol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cytuno nad strategaeth unigol yw'r ffordd orau o gyflawni hyn o reidrwydd.

Gwnaeth yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn 2018 amryw o argymhellion ynghylch dyfodol darpariaeth iechyd a gofal yng Nghymru. Galwodd yr Adolygiad am un system ddi-dor i Gymru, gydag un weledigaeth glir a syml o sut beth fydd gofal yn y dyfodol i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Argymhellodd yr Adolygiad y dylid trefnu gofal o amgylch yr unigolyn a'u teuluoedd ac y dylai'r cymorth a ddarperir fod heb rwystrau artiffisial.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 118**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cafodd Cymru lachach: ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddwyd yn 2018 ei lywio gan yr adolygiad seneddol. Mae'n darparu ar gyfer dull system gyfan sy'n deg a lle bydd gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel ac yn sicrhau canlyniadau iechyd mwy cyfartal i bawb yng Nghymru. Dylai gwasanaethau gael eu dylunio o amgylch yr unigolyn ac o amgylch grwpiau o bobl, yn seiliedig ar eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â chanlyniadau ansawdd a diogelwch.

Fel rhan o ddatblygiad Cymru lachach, cynhaliwyd Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a chanfuwyd y bydd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn elwa ar wasanaethau gofal iechyd diogel ac effeithiol, a'u darpariaeth barhaus yw amcan cyffredinol y Cynllun Hirdymor.

O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae'n ofynnol i bob darparwr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gynnal aseuadau poblogaeth a chyhoeddi cynlluniau ardal sy'n nodi sut maent yn diwallu anghenion grwpiau blaenoriaeth penodol – un ohonynt yn blant a phobl ifanc.

Atgoffir Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol o'u dyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Rhan 9 Canllawiau Statudol a Fframwaith Cynllunio GIG Cymru. Mae'r Fframwaith yn cynnwys amryw o ofynion penodol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys darparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant yn eu hardal, cymorth i blant ag AAA a chydymffurfiaeth â gofynion diogelu, gyda disgwyl i BILlau ddangos tystiolaeth o'u cydymffurfiaeth yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig sy'n destun cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

Mae'r Fframwaith Cynllunio yn ei dro yn seiliedig ar amrywiaeth o strategaethau a mentrau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â gofal iechyd i blant a phobl ifanc, megis Polisi Sgrinio ac Imiwneiddio, Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, Rhaglen Plant Iach Cymru a Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Ni fydd unrhyw un o'r dyletswyddau na'r disgwyliadau sydd wedi'u cynnwys yn y dogfennau canllaw hyn, na'r trefniadau atebolrwydd sydd wedi'u hymgorffori yn y prosesau IMTP neu Gynllunio Ardal lle mae darparwyr gofal iechyd yn dangos eu bod yn cydymffurfio â nhw, yn cael eu heffeithio'n negyddol gan unrhyw beth yn y Cynllun Hirdymor.

Caiff llwyddiant y Cynllun ei farnu dros amser drwy'r ystod eang o drefniadau monitro a sicrhau perfformiad presennol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a thrwy adroddiadau cynnydd rheolaidd ar drawsnewid gwasanaethau.

Mae gweithio amlddisgyblaethol yn arbennig o bwysig mewn perthynas ag iechyd plant, felly bydd y trawsnewidiad a gynigir yn y Cynllun Hirdymor i system o ddarpariaeth iechyd a gofal ddi-dor yn hyrwyddo mabwysiadu ymyriadau integredig ac effeithiol i blant yn ehangach, gan arwain at ganlyniadau iechyd a lles mwy cadarnhaol dros amser. Bydd mwy o bwyslais ar ddulliau gofal iechyd ataliol o fudd uniongyrchol i blant a phobl ifanc hefyd drwy gynyddu llythrennedd iechyd a sicrhau bod dewisiadau ac ymddygiadau ffordd o fyw cadarnhaol yn cael eu harfer o oedran ifanc. Mae rhaglen waith ar y gweill ar hyn o bryd i archwilio sut rydym yn creu system blynyddoedd cynnar o hybu iechyd yn lleol ac yn genedlaethol hefyd. Yn ogystal, mae iechyd a lles yn faes dysgu craidd yn y cwricwlwm newydd a ddatblygwyd ar gyfer Cymru.

Bwriad Cymru lachach yw sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol diogel o ansawdd uchel yng Nghymru i'r dyfodol a, thrwy wneud hynny, bydd yn cysylltu'n uniongyrchol ag amryw o Erthyglau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Y GIG yng Nghymru ac awdurdodau lleol Cymru yw prif ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i blant a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi goroesiad a datblygiad iach plant yn unol ag Erthygl 6, cymorth meddygol a chymdeithasol i blant ag anableddau yn unol ag Erthygl 23, a darparu gofal iechyd i blant yn unol ag Erthygl 24.

Mewn perthynas ag Erthyglau 12 a 13, mae Cymru iachach yn hyrwyddo mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran darparu iechyd a gofal cymdeithasol, gan roi gofynion a dewisiadau'r unigolyn wrth wraidd y system i gyflawni'r canlyniadau y mae'n dweud sy'n bwysig iddo, yn hytrach na pharu pobl â'r gwasanaethau sydd ar gael fel sy'n digwydd yn aml yn awr. Er mwyn cyflawni hyn, rhoddir mwy o bwyslais ar roi mwy o lais i unigolion yn y gwasanaethau a gânt a'r gwahanol opsiynau gofal neu driniaeth sydd ar gael, a'u galluogi i gael gafael ar yr holl wybodaeth a gedwir gan wasanaethau am eu hiechyd a'u lles, gyda chymorth gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i helpu i egluro beth mae'r wybodaeth honno'n ei olygu, a sut i'w defnyddio mewn ffyrdd sy'n gwella iechyd a lles.

Mewn perthynas ag Erthygl 15, dylid cynyddu cymaint â phosibl y cyfleoedd i blant ag anableddau neu broblemau iechyd gysylltu ag eraill drwy ddarparu mwy o wasanaethau iechyd mewn lleoliadau cymunedol yn hytrach nag ysbytai, a bydd mwy o bwyslais ar hybu iechyd a dulliau ataliol ym maes gofal iechyd yn lleihau anghydraddoldebau iechyd ac yn cefnogi mwy o blant i gymryd rhan mewn chwarae gweithredol a chwaraeon a mwynhau'r cyfleoedd cymdeithasol ehangach a ddaw yn sgil gweithgareddau o'r fath.

Yn gryno, mae'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym maes gofal iechyd a nodir yn Cymru iachach, o'i gyfuno â rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru sy'n ceisio cefnogi plant, eisoes yn darparu'r trylwyredd angenrheidiol o ran sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn eu cefnogi wrth iddynt ddatblygu i fod yn oedolion ifanc.

## **PWYSAU IACH: CYMRU IACH**

Rydym yn parhau i weithio ar ein strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, a bydd y Cynllun Cyflawni ar gyfer 2022-24 yn cael ei lansio gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn gynnar yn 2022. Bydd y cynllun hwn yn ystyried y cyfleoedd a'r heriau a ddaeth yn sgil y pandemig COVID-19. Mae adferiad wedi'i ystyried yn ofalus, yn enwedig yr effeithiau tymor byr a chanolig ar ymddygiad ar draws y boblogaeth. Mae cefnogi plant a theuluoedd wedi parhau i fod yn ffocws trawsbynciol ar draws camau gweithredu o fewn y cynllun drafft, gydag ystyriaeth barhaus o anghydraddoldebau iechyd a chau'r bwlch.

Rydym wedi buddsoddi £5 miliwn arall dros 2021-22 i ddwyn ynghyd raglenni â thystiolaeth ryngwladol i'w hategu a fydd yn cefnogi newidiadau hanfodol. Mae rhai o'r prif gyflawniadau'n cynnwys:

- Cyflwyno Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan diwygiedig sy'n rhoi ffocws sylweddol ar iechyd meddwl a chorfforol, gyda Byrddau Iechyd Lleol yn datblygu cynlluniau lleol a chynyddu capasiti.
- Mae Trafnidiaeth Cymru wedi newid y cynnig arlwygo ar drenau er gwell ar gyfer teithiau ledled Cymru.
- Dechrau newid cadarnhaol yn yr amgylchedd bwyd gyda'r nod o wneud y dewis iach yn ddewis rhwydd.
- Dechrau datblygu Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan newydd, sefydlu cynlluniau peilot ar gyfer Rhaglen Plant a Theuluoedd a pharhau i ddarparu Rhaglen Cymru Egniol i bobl dros 60 oed.
- Sefydlu timau system ledled Cymru a fydd yn canolbwyntio ar atal a gweithio gyda chymunedau i nodi a dod o hyd i atebion lleol.

## **Gwerthuso**

Roedd Llywodraeth Cymru wedi gobeithio sicrhau gwerthusiad annibynnol o'r strategaeth, ond mae hyn wedi'i ohirio oherwydd y pandemig. Comisiynwyd gwerthusiad cyn asesu ac mae swyddogion yn disgwyl ceisiadau, i'w derbyn yr wythnos sy'n cychwyn ar 1 Tachwedd. Bydd hyn yn helpu i bennu'r paramedrau ar gyfer unrhyw werthusiad yn y dyfodol, lle gwyddom y bydd angen dylunio'r broses o geisio cipio ehangder llawn y strategaeth a'r effaith i ystyried y natur aml-elfen. Dylai hyn ddylanwadu ar benderfyniadau ar gyfer cynllun cyflawni 2024-26. Mae amrywiaeth o werthusiadau yn cael eu sefydlu ar draws y broses o gyflwyno rhaglenni hefyd.

## **GWASANAETH CLEIFION MEWNOL IECHYD MEDDWL AMENEDIGOL ARBENIGOL**

O ran 'Uned Gobaith', nodwyd y potensial i adnewyddu seilwaith segur ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ddatblygu Uned Mamau a Babanod bwrpasol ar safle Tonna, gan ein galluogi i sicrhau bod uned yn weithredol cyn gynted â phosibl. Adolygwyd y safle hwn gan yr Uned Gomisinyu Gydweithredol Genedlaethol yn erbyn y safonau ar gyfer Gwasanaethau Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl Amenedigol (CCQI Mawrth 2018) a chadarnhaodd y byddai'n briodol yn glinigol naill ai dros dro neu'n barhaol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i WHSSC gynnal arfarniad opsiynau pellach i'n galluogi ni i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch ai parhau i ddefnyddio'r uned wedi'i hadnewyddu ar safle Ysbyty Tonna yn barhaol, neu ddatblygu Uned Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol newydd ar safle Castell-nedd Port Talbot, fyddai'n sicrhau'r canlyniadau gorau. Rydym wedi cytuno y byddwn ni, am y 12 mis cyntaf ar ôl agor Tonna, yn defnyddio'r cyfnod hwn i werthuso mynediad i'r uned honno, a'r defnydd ohoni, i lunio barn wybodus ar ba gamau sydd eu hangen yn y dyfodol. Daw'r cyfnod hwn o 12 mis i ben ym mis Ebrill 2022.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda GIG Lloegr i ddatblygu'r opsiwn o Uned Mamau a Babanod wyth gwely ar y cyd a fyddai'n cynnig darpariaeth i fenywod yn y Gogledd. Mae'r sail resymegol dros fynd ar drywydd uned wyth gwely ar y cyd yn seiliedig ar waith modelu'r galw a wnaed gan WHSSC (wedi'i adnewyddu'n ddiweddar) ac i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy i fenywod yn y Gogledd. Byddwn yn rhoi diweddariad pellach ar y gwaith hwn a'r amserlen ar gyfer gweithredu cyn bo hir.

## **POBL SY'N GADAEL GOFAL**

Rydym wedi ymrwmo i gefnogi pobl sy'n gadael gofal i fod yn oedolion annibynnol ac mae hyn yn cynnwys gwella ansawdd ac ystod yr opsiynau llety sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal a pharhau â'r cymorth a gynigir drwy Gronfa Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r Gronfa Dydd Gŵyl Dewi gwerth £1 miliwn yn rhoi cymorth ariannol uniongyrchol i bobl sy'n gadael gofal fel y gallant fanteisio ar gyfleoedd mewn addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth a fydd yn eu helpu i bontio'n llwyddiannus tuag at fyw bywydau annibynnol a llwyddiannus fel oedolion.

Yn 2017–18, manteisiodd bron i 2,000 o bobl ifanc ar y gronfa ac mae'n parhau i helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Ym mlwyddyn ariannol 2019–20, dyblwyd y gronfa i gefnogi pobl ifanc mewn perthynas â thai ac, yn ystod COVID, gellir defnyddio'r gronfa i gefnogi pobl ifanc y mae'r pandemig wedi effeithio'n andwyol arnynt. Datblygwyd Cronfa Galedi COVID ychwanegol gwerth £1 miliwn, yn debyg i Gronfa Dydd Gŵyl Dewi, i gefnogi unrhyw anghenion ychwanegol.



Mae swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Polisi Tai i ddatblygu ein nodau yn y maes polisi hwn ac i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn nhymor diwethaf y Senedd. Mae swyddogion yn cydweithio â'r trydydd sector ac awdurdodau lleol gyda'r nod o wella'r newid o ofal i fyw'n annibynnol ac edrych ar yr amrywiaeth o opsiynau llety o ansawdd sydd ar gael i bobl sy'n gadael gofal.

Drwy ein Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol Trydydd Sector, rydym yn buddsoddi yn y trydydd sector ac yn cydweithio â'r trydydd sector i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal i fyw'n annibynnol a mynd i'r afael â phroblemau llety drwy ein rhaglen Skills+ Gweithredu dros Blant.

Drwy'r gronfa arloesi ar gyfer pobl ifanc ddigartref gwerth £3.6 miliwn yn y Grant Atal Digartrefedd, rydym yn cefnogi prosiectau sy'n mynd i'r afael â thai i bobl ifanc mewn ffyrdd newydd ac arloesol. Mae'r prosiectau hyn yn benodol i bobl ifanc agored i niwed rhwng 16 a 25 oed sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd, gydag amryw yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi pobl sy'n gadael gofal. Ar hyn o bryd, mae 25 o brosiectau'n gweithredu ledled Cymru a bydd gwerthusiad allanol o'u heffeithiolrwydd wrth gefnogi pobl ifanc yn dechrau cyn bo hir.

Er mwyn gwella'r broses bontio i bobl sy'n gadael gofal, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio a'r rhai yn y maes Polisi Tai yn mynd ati ar y cyd i ddiweddarau Fframwaith Llety a Chymorth i Bobl sy'n Gadael Gofal Cymru Barnardo's. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, byddwn yn sicrhau bod hyfforddiant ar weithredu'r fframwaith fel bod yr holl asiantaethau dan sylw yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau a bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n well.

Wrth gwrs, mae'r cynnig llety ar gyfer pobl sy'n gadael gofal a phobl ifanc yn fwy cyffredinol yn agwedd allweddol ar y gwaith ehangach i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru gartref fforddiadwy o safon dderbynol. Mae'r pandemig wedi rhoi cyfle i ni drawsnewid gwasanaethau tai a digartrefedd a dechrau mabwysiadu dull gwirioneddol gynhwysol i sicrhau nad yw unrhyw un yn cael ei adael heb gartref. Rydym hefyd wedi ymrwymo'n gryf i symud o sefyllfa o ddibynnu ar lety dros dro i system sy'n canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym.

## **CYFIAWNDER IEUENCTID**

Mae'r Glasbrintiau Cyfiawnder Ieuencid a Throseddu Benywaidd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019, yn nodi dull gwahanol o ymdrin â gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru, sef un sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, gan geisio dargyfeirio pobl ifanc i ffwrdd o droseddu yn y lle cyntaf, ond hefyd i ddarparu cymorth cyfannol ac adsefydlu i'r rhai sy'n dod i mewn i'r system.

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y system gyfiawnder, ond mae darparu cyfiawnder yng Nghymru yn ddibynnol iawn ar wasanaethau datganoledig, gydag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, addysg, dysgu a sgiliau a thai i gyd yn gwneud cyfraniad allweddol at atal troseddu ac adsefydlu pobl ifanc sy'n troseddu yn effeithiol. Er bod nifer y Cymry ifanc yn y ddalfa wedi gostwng yn sylweddol, mae llawer yn y ddalfa i ffwrdd o'u cartrefi, eu teulu a'u cymunedau. Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid yn nodi ymrwymiad i wireddu sut y gall gwasanaethau datganoledig a gwasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli gydweithio i wireddu hawliau plant a datblygu system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru sy'n seiliedig ar egwyddorion seiliedig ar hawliau.

Rydym yn mynd i'r afael â'r materion hyn mewn dull traws-lywodraethol, gydag ymrwymiad a rennir i'r Glasbrentiau ar draws adrannau polisi. Sefydlwyd grŵp llywodraethu mewnol gan Lywodraeth Cymru, gydag uwch swyddogion ar draws adrannau polisi perthnasol, gan gynnwys Iechyd, Addysg, Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Un enghraifft o'r dull traws-lywodraethol o ymdrin â'r gwaith hwn oedd cytundeb y Cabinet ym mis Ionawr i weledigaeth ar gyfer yr ystâd ddiogeledd ar gyfer plant Cymru yn y system gyfiawnder a oedd yn disgrifio model cyflenwi newydd ar gyfer llety diogel lle byddai plant yn cael eu lletya mewn cartrefi bach, yn agos at eu cymunedau gyda mynediad at wasanaethau a chymorth arbenigol i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi cytuno â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gydweithio i gyflawni canlyniad a fydd yn gweld plant yn y systemau lles a chyfiawnder yng Nghymru yn cael eu cydleoili yn yr un adeilad / safle, gan gyd-fynd â'r weledigaeth a'r egwyddorion a nodwyd yn y papur gweledigaethau yn gynharach yn y flwyddyn.

## **CYLLIDEBAU IECHYD MEDDWL**

Rydym wedi cydnabod iechyd meddwl fel maes trawsbynciol pwysig yn ein paratodau ar gyfer y gyllideb. Mae dyraniadau ar draws Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion pan fyddwn yn cyhoeddi ein cyllideb ddrafft ar 20 Rhagfyr.

## **TŶ LLIDIARD**

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles wedi datgan yn glir ei disgwyliad bod angen bwrw ymlaen â'r gwaith i wneud y gwelliannau angenrheidiol yn Nhŷ Llidiard ar frys. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cael sicrwydd bod monitro ychwanegol ar waith a bod camau wedi'u cymryd i sicrhau bod y gwasanaeth cyfredol yn ddiogel a bod unigolion yn yr uned yn parhau i gael gofal o safon. Mae'r Dirprwy Weinidog yn cael diweddariadau wythnosol ynghylch cynnydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB) yn erbyn y cynllun gwella y cytunwyd arno ar gyfer Tŷ Llidiard.

Mae'r bwrdd iechyd wedi pwysleisio ei fod wedi ymrwmo i'r gwelliannau hyn ac yn gweithio gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) er mwyn gweithredu'r newidiadau angenrheidiol. Mae hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer y Dirprwy Weinidog sy'n dilyn y sefyllfa a'r cynnydd yn agos iawn.

Mae'r Dirprwy Weinidog hefyd yn cael diweddariadau wythnosol gan banel rheoli gwelyau Cymru Gyfan sy'n adolygu'r capasiti a'r pwysau ar lif clefion yn y ddwy uned CAMHS.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar raglen wella haen 4 ehangach gyda WHSSC a fydd yn gwella ac yn cryfhau'r gefnogaeth yn y ddwy uned CAMHS yng Nghymru. Fel rhan o'r £5.4 miliwn ychwanegol a ymrwymwyd eleni i wella CAMHS, bydd £1.8 miliwn yn cefnogi gwelliannau yn uniongyrchol yn ein dwy uned CAMHS yng Nghymru.

**Gwybodaeth ychwanegol i chi ofyn i ni ei darparu**

## **ADRODDIADAU 'AT WRAIDD Y MATER' Y GRŴP LLYWIO GWASANAETHAU HANFODOL**

Nid oes gennym adroddiadau byrddau iechyd unigol ar wasanaethau hanfodol a sut y cynhaliwyd y rhain yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae copïau o adolygiadau'r Grŵp o wasanaethau plant a gwasanaethau'r galon wedi'u hatodi er gwybodaeth.

## **RHAGLENNI BRECHU**

### **Rhaglen Frechu COVID-19**

#### **Pobl ifanc 12-15 oed**

Canfu'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) fod budd i gynnig brechiad i bobl ifanc 12-15 oed, ond mai ychydig iawn o fudd oedd o safbwynt iechyd yr unigolyn. Dywedodd y Cyd-bwyllgor fod y Prif Swyddogion Meddygol mewn sefyllfa well i roi cyngor ar fuddion ehangach brechu'r grŵp oedran hwn i iechyd y cyhoedd. Ar 14 Medi, argymhellodd pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU, ar sail iechyd y cyhoedd, y dylid cynnig dos cyntaf o frechlyn COVID-19 Pfizer-BioNTech i bob plentyn a pherson ifanc 12-15 oed nad ydynt eisoes wedi'u cwmpasu gan gyngor JCVI presennol. Cafodd yr argymhelliad hwn ei dderbyn gan 4 gwlad y DU.

Teimlwyd bod y manteision tebygol ychwanegol o leihau tarfu ar addysg a'r gostyngiad dilynol mewn niwed i iechyd y cyhoedd yn ddigon o fantais ychwanegol i argymhell o blaid brechu'r grŵp hwn.

Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi dewis darparu drwy Ganolfannau Brechu yn bennaf, ond mae dull cyfunol ledled Cymru yn cael ei fabwysiadu, gan y gallai fod angen i dimau brechu fynd i ysgolion arbennig a rhai ysgolion preifat lle gall plant a phobl ifanc fod yn preswyllo.

Yn ystod hanner tymor, canolbwyntiodd GIG Cymru ar frechu pobl ifanc 12 i 15 oed, gyda llawer o ganolfannau'n cynnig apwyntiadau galw i mewn.

Rydym wedi rhoi **dros 164,671 o frechiadau** (data o 16/11) i'r garfan 12-15 (cyfradd dderbyn o **51% ar 16/11**) ac wedi cyflawni ein nod, fel y nodir yn Strategaeth Frechu COVID-19, a gyhoeddwyd ar 12 Hydref, i gynnig apwyntiad i bawb yn yr ystod oedran hon erbyn 1 Tachwedd.

Rydym hefyd wedi gweld niferoedd uchel o bobl ifanc o oedran ysgol yn cael eu heintio â COVID-19 yn ddiweddar, ac yn methu â mynychu eu hapwyntiad brechu, sy'n effeithio ar y gyfradd dderbyn ar hyn o bryd. Yn dilyn newidiadau diweddar i'r Llyfr Gwyrdd, bydd y bobl ifanc hyn yn cael gwahoddiad arall 12 wythnos ar ôl unrhyw haint COVID-19.

Rydym yn ymwybodol y bydd rhai rhieni neu warcheidwaid yn ansicr a ddylid cydsynio i'w plentyn dderbyn y brechlyn ai peidio, a gall hyn arwain at gyfraddau derbyn is yn yr ystod oedran hon. Mae gwybodaeth briodol ar gael i blant a phobl ifanc a'u rhieni i helpu i benderfynu, ac anogir trafodaeth.

#### **Pobl ifanc 16 ac 17 oed**

Rhoddodd y JCVI ei gyngor ar 4 Awst i gynnig **dos cyntaf** o'r brechlyn Pfizer-BioNTech i bob person ifanc 16 ac 17 oed a oedd heb ei frechu. Roedd hyn yn ychwanegol at y cynnig presennol o **ddau** ddos o frechlyn i bobl ifanc 12-17 oed a oedd mewn **grwpiau 'mewn perygl'** (fel y nodir yn y [Llyfr Gwyrdd](#)), y rhai sy'n byw ar yr un aelwyd â phobl (oedolion neu blant) sy'n imiwnoataliedig a phobl ifanc sydd o fewn tri mis i'w pen-blwydd yn 18 oed. Gwnaethom gynnig dos cyntaf i'r unigolion 16 ac 17 oed hynny erbyn 20 Awst.

Yn fwy diweddar, cyhoeddodd y JCVI gyngor ar 15 Tachwedd, a oedd yn argymhell y dylai pob unigolyn 16 ac 17 oed yng Nghymru nad ydynt mewn grŵp 'mewn perygl' gael **ail ddos**

o'r brechlyn COVID-19 Pfizer-BioNTech. Nododd y JCVI bod mwy o sicrwydd yn y data ynghylch manteision y brechlyn o'i gymharu â'r risgiau. Mae pedair gwlad y DU wedi cytuno i dderbyn y cyngor hwn.

Y bwllch a argymhellir ar gyfer yr ail ddos yw 12 wythnos neu fwy ar ôl dos cyntaf y brechlyn neu haint COVID-19, pa un bynnag sydd fwyaf diweddar.

Bydd unigolion 16-17 oed yn cael digon o wybodaeth am risgiau a manteision brechu i'w galluogi i wneud penderfyniad dilys am yr ail ddos yn seiliedig ar eu hamgylchiadau personol. Mae'r JCVI wedi cytuno ar daflen wybodaeth a gynhyrchwyd gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU y gellir ei ddefnyddio i gefnogi'r broses hon.

Rydym wedi rhoi dros **470,237 o frechiadau** (data o 16/11) i'r garfan hon (cyfradd dderbyn o **75.6%**).

### **Rhaglenni Brechu Eraill**

Mae rhaglenni imiwneiddio plant wedi parhau fel gwasanaethau hanfodol yn ystod pandemig y coronafeirws, gyda sicrwydd priodol i rieni a mesurau rheoli heintiau wedi'u rhoi ar waith gan feddygfeydd. Mae adroddiadau imiwneiddio manwl misol a ddatblygwyd gan y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu defnyddio i fonitro effaith COVID-19 ar gyfraddau derbyn brechiadau rheolaidd i blant ledled Cymru.

Mae'r data chwarterol diweddaraf yn awgrymu bod cyfraddau brechu ymhlith plant ifanc a babanod wedi aros yn sefydlog gydol y pandemig. Yn y cyfnod adrodd diweddaraf, Ebrill-Mehfin 2021, roedd 91% o blant wedi cael eu brechiadau rheolaidd i gyd erbyn eu bod yn 5 oed (ar gyfer yr un cyfnodau yn 2019 a 2020, roedd y gyfradd hon hefyd yn 91%). Mae cyfran y plant sydd wedi cael yr holl frechiadau rheolaidd erbyn eu bod yn bedair oed hefyd wedi aros yn sefydlog, sef 87.8% y chwarter hwn a 90.8% mewn plant pump oed.

O'r holl frechlynnau i bobl ifanc yn eu harddegau, mae'n ymddangos mai cyfraddau'r brechlyn HPV sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan gau ysgolion. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau un dos o'r Brechlyn Feirws Papiloma Dynol (HPV) ymhlith plant blwyddyn 8 yn 2020-21 (12-13 oed) yn 60.1%. Bydd brechiadau dal i fyny yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer y rhai yn y garfan hon na chawsant eu himiwneiddio fel y trefnwyd. Dyma'r ail garfan HPV i gynnwys bechgyn.

### **GWELLA IECHYD PLANT**

#### **Gordewdra mewn Plant**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael y dasg o ddatblygu cynllun peilot rhaglen Plant a Theuluoedd i gefnogi rheoli pwysau mewn tri safle ledled Cymru - Ynys Môn, Merthyr Tudful, Caerdydd. Mae hyn wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad drwy Pwysau Iach: Cymru Iach o £0.6 miliwn y flwyddyn tan 2024 pan fydd gwerthusiad o'r rhaglen yn darparu tystiolaeth ar gyfer y camau nesaf.

Rydym wedi bod yn cefnogi ymgyrch Veg Power ers iddi gael ei rhedeg gyntaf yn 2019, gyda'r nod o wneud llysiau'n fwy o hwyl i blant. Cafodd ymgyrch 2021 ei lansio ar ITV ar 29 Mai, gydag enwogion fel y Fonesig Emma Thompson, Amanda Holden a Jamie Oliver yn lleisio'r llysiau. Cefnogwyd yr hysbyseb gan dros £3 miliwn o hysbysebu a roddwyd gan ITV, Channel4 a Sky Media, gyda chyfryngau ychwanegol a roddwyd gan 15 o gwmnïau cyfryngau eraill yn cyflwyno'r ymgyrch mewn print, yn yr awyr agored, mewn sinemâu ac ar-lein. Yn 2022, ein nod yw cefnogi'r ymgyrch Veg Power i ddarparu adnoddau dwyieithog i 60,000 o ddisgyblion yng Nghymru, ar draws tua 250 o ysgolion.

## **Iechyd Deintyddol Ataliol**

Mae *Cynllun Gwên* yn rhaglen wella genedlaethol ar iechyd y geg i blant (0-5 oed) a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n targedu meithrinfeydd ac ysgolion mewn ardaloedd o anfantais gymdeithasol lle mae gan blant y lefelau uchaf o bydredd dannedd. Gall pydredd dannedd arwain at boen a haint, gyda phlant yn colli cwsig ac yn cael amser i ffwrdd o'r ysgol. Mae astudiaethau'n dangos bod plant sydd â phydredd dannedd yn eu dannedd babanod deirgwaith yn fwy tebygol o fod â phydredd yn eu dannedd oedolion, felly mae angen i ni wneud pob ymdrech i gadw plant yn rhydd o bydredd erbyn eu bod yn 5 oed.

Mae'r rhaglen yn llawer mwy na dim ond addysgu plant sut i frwsio eu dannedd. Mae'n rhaglen atal ac ymyrraeth glinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i osgoi pydredd dannedd a darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar blant, a'u rhieni a'u gofalwyr, i ddatblygu a chadw iechyd y geg da o oedran ifanc.

Mae wedi bod yn rhaglen iechyd y cyhoedd hynod effeithiol. Rydym wedi gweld gostyngiad o 13.4% mewn lefelau pydredd dannedd ymhlith plant 5 oed ers 2008 ac roedd gennym dros 90,000 o blant mewn dros 1,200 o ysgolion a meithrinfeydd yn brwsio dannedd yn rheolaidd fel rhan o'r cynllun cyn y pandemig.

Cafodd *Cynllun Gwên* ei oedi yn ystod y pandemig (cau ysgolion a mesurau rheoli heintiau), ond disgwylir iddo ailgychwyn yn nhymor yr hydref 2021. Mae staff y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol wrthi'n cysylltu â lleoliadau i hyfforddi staff addysgu, cael caniatâd rhieni a darparu offer i ailgychwyn y Cynllun Brwsio Dannedd Dyddiol. Bydd y rhaglen Farnais Fflworid yn ailgychwyn hefyd.

## **Ysmygu ymhlith Pobl Ifanc**

Mae ysmygu yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc drwy gydol eu plentyndod, o feichiogrwydd hyd at flaenlencyndod. Rhan allweddol o'n gweledigaeth ar gyfer cael Cymru ddi-fwg yw cynorthwyo plant a phobl ifanc i gael plentyndod di-fwg.

Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ar ein Strategaeth Rheoli Tybaco newydd i Gymru a'r Cynllun Cyflawni cyntaf sy'n nodi'r camau penodol wedi'u targedu a fydd yn ein helpu ni i leihau'r niwed sy'n deillio o dybaco yng Nghymru. Mae'r strategaeth ddrafft yn sefydlu ein huchelgais i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030, sy'n golygu sicrhau cyfradd ysmygu ymhlith oedolion o 5% neu lai dros yr wyth mlynedd nesaf.

Byddwn yn ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu i gefnogi'r ymgynghoriad a byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael cyfle i gyfrannu at ein hymgynghoriad.

## **Ffitrwydd Corfforol**

Trwy ein strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, rydym yn datblygu cynnig 'Bywiog Bob Dydd' newydd ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Bydd y cynnig hwn yn mabwysiadu dull ysgol gyfan sy'n benodol i oedran, wedi'i ategu gan fodel o newid ymddygiad. Yn ganolog i ddatblygu'r dull newydd hwn mae ymgysylltiad plant a phobl ifanc i lunio syniadau a fyddai'n cael eu hymgorffori wrth ddylunio model yn y dyfodol. Bydd hyn yn fwy ymatebol i'r dystiolaeth bresennol, yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac yn ceisio integreiddio ystod o raglenni yn gynig cydlynol. Bydd model pwrpasol i Gymru newydd yn cynnwys gwerthuso o'r dechrau i asesu canlyniadau iechyd; ac yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i weithio gydag ysgolion er mwyn datblygu cyfres o ddulliau ac opsiynau addasadwy i ategu'r cwricwlwm

newydd. Mae gwaith ar y gweill i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i arwain ar y gwaith hwn sy'n cael ei arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rhagwelir y bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cyfarfod yn ystod mis Rhagfyr 2021.

### **Defnyddio Cyffuriau Anghyfreithlon**

Drwy ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22, sy'n seiliedig ar ddull lleihau niwed, rydym yn cydnabod dibyniaeth fel mater iechyd a gofal yn hytrach nag un sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol yn unig. Y nod cyffredinol yw bod pobl yng Nghymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn ymwybodol o beryglon ac effaith camddefnyddio sylweddau ac yn gwybod ble y gallant gael gwybodaeth, help a chymorth. Rydym yn buddsoddi bron i £55 miliwn y flwyddyn yn ein hagenda camddefnyddio sylweddau, gyda £2.75 miliwn o'r swm hwn wedi'i neilltuo'n benodol i gefnogi gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

Fel yr amlygwyd eisoes, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi £1.98 miliwn bob blwyddyn yn Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru (WPSP), gyda chyllid cyfatebol gan bedwar Heddlu Cymru. Fel rhan o'r rhaglen mae swyddogion yr heddlu yn mynd i ysgolion ac yn cyflwyno gwersi ar amrywiaeth o bynciau. Mae'r rhaglen graidd yn cynnwys camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig, bwlio, diogelwch ar-lein, secstio, camfanteisio'n rhywiol ar blant a chydysyniad, gan gyflwyno rhaglen gytbwys mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'n canolbwyntio 50% ar ddarparu'r cynnwys craidd i ddiwallu anghenion disgyblion ac ysgolion a 50% ar ymyriadau rhagweithiol ar ddiogelu a rheoli digwyddiadau.

Cynhaliwyd adolygiad o'r WPSP gan yr Heddlu ym mis Tachwedd 2019. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu argymhellion yr adolygiad a sut y gallant ategu ac ychwanegu gwerth at waith sydd ar y gweill drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan, er mwyn gwella lles emosiynol a meddyliol dysgwyr.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn mynd i'r afael â'r materion ychwanegol a godwyd.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS**  
Y Gweinidog Iechyd a  
Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Minister for Health and  
Social Services



**Julie Morgan AS**  
Y Dirprwy Weinidog  
Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Deputy Minister for Social  
Services



**Lynne Neagle AS**  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd  
Meddwl a Llesiant  
Deputy Minister for Mental  
Health and Wellbeing



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Essential Services Steering Group

# *Review of Essential*

# *Cardiac Services*

## December 2020

**Authors:** Mark Dickinson and Janet Davies, Co-Chairs

**Date:** 11 February 2021

**Version:** 1 FINAL)

### **Purpose and Summary of Document:**

This paper reports on a Review of Essential Cardiac Services conducted by the Essential Services Steering Group, with the support of the Wales Cardiac Network and WG officials.

The background to, conduct of, and key findings resulting from, the review are summarised and a number of recommendations are made. Reflections on the review, informed by feedback on earlier drafts of this report, are also included.

# 1 Background and rationale for the review

During the first wave of the COVID pandemic, the Essential Services Group, with wide representation from WG and NHS Wales, oversaw the development and approval of an NHS Wales Essential Services Framework (informed by WHO guidance), an agreed list of services deemed to be essential and a range of supporting guidance for NHS Wales.

More recently, the full group has been stood down (but not abolished), with work being coordinated by a core Steering Group, which has focused primarily on improving assurance of Essential Services delivery. In late 2020, the Steering Group concluded that there was a need to take stock of where we are and get a fuller understanding of:

- whether (or to what extent) relevant guidance is being complied with across Wales
- what the main challenges are in maintaining essential services in line with the guidance (both currently and over the rest of the winter period)
- whether current guidance remains fit for purpose or needs to be revised or supplemented
- what other action could be taken/recommended that would support both the maintenance of essential services and the recovery of a wider range of services

To do this, and in view of the wide and varied range of specified essential services, the Steering Group agreed to conduct a series of 'deep dives', to review specific topic/condition areas, focusing on the above points. The aim is to convene a series of topic-specific sessions, bringing together members of the Steering Group, the relevant WG policy lead(s), the relevant national clinical lead(s) and (where applicable) network managers etc., informed by the:

- current essential services guidance
- evidence/data relating to service delivery (both 'hard' and 'soft')

It was anticipated that this exercise would identify the need for additional actions, guidance etc. The development of this will be led by the Steering Group, with the full Essential Services Group than being used, as required, as a 'virtual reference group' to consider and advice on the actions and guidance.

The Steering Group agreed that the first, pilot, 'deep dive' review should be focused on essential cardiac services, for the following reasons:

- it is a hugely important area in terms of 'burden of disease'
- the services deemed essential have been clearly specified



- there is a clear and highly motivated supporting structure (network, clinical lead, implementation group, policy lead)
- services have been highlighted for specific attention in WG planning guidance and accompanying correspondence (but have not had quite the prominence/profile as cancer services)

## **2 Conduct of the review**

### **2.1 Collection of evidence**

The Steering group chairs engaged with the Dr Jon Goodfellow, National Clinical Lead and Steve Davies, Wales Cardiac Network Manager and Caroline Lewis, WG policy lead who agreed to support the review through the provision of written evidence and participation in a review meeting with members of the Steering Group.

An evidence gathering proforma was developed (that can be adapted for use in future reviews on other topics) and provided to the Wales Cardiac Network for completion before the review meeting. The proforma included sections on:

- Specification of essential services
- Guidance on essential services
- Assurance of essential services delivery
- Overall assessment of current essential services delivery
- Assessment of threats to essential services delivery during Winter 2020/21
- Specific recommendations to support the maintenance of essential services

The proforma was completed and returned by the Wales Cardiac Network and is included as Appendix 1 to this report.

### **2.2 Review meeting – 17 December 2020**

The review meeting was held on 17 December 2020 via Microsoft Teams. Participants included members of the Steering Group, representatives from the Wales Cardiac Network and additional WG officials. A list of participants is included as Appendix 2.

Jon Goodfellow and Steve Davies presented in support of the written evidence provided, answered specific questions and participated in a discussion.

Key themes arising from the presentation and discussion were as follows:

- in general, a level of essential cardiac services has been maintained throughout the pandemic in line with the guidance issued. The current guidance remains fit for purpose and no immediate changes were needed.
- maintaining essential services has been challenging and the pandemic has had a major impact on the delivery of cardiac services beyond those deemed essential in the guidance
- many of the most significant challenges relate to the exposure of longstanding weaknesses in cardiac services including:
  - workforce pressures
  - access to timely, accurate and consistent data about cardiac service delivery
  - timely access to key investigations, including CT coronary angiography (CTCA) as the default test for new suspected cardiac chest pain
- much has been done to successfully introduce remote working and virtual clinics, although progress has been variable across health boards
- returning to pre-pandemic ways of working will not adequately address the backlog of diagnosis, treatment and care that is arising; there is need for a more prudent approach to the acceptance of referrals and the provision of advice to primary care and an overall focus on delivering high value care.

### 3 Recommended action

The following recommended actions have been developed following the review meeting and have been informed by that meeting, the evidence submitted by the Wales Cardiac Network and subsequent discussions. As most of the issues considered within the review concern longstanding issues that have been thrown into stark relief by the pandemic, this is reflected by the medium to long term nature of many of the actions. The actions are more about the recovery of services in the aftermath of current acute pandemic pressures and closely reflect the content of the Wales Cardiac Network's emerging 2021/22 Work Plan and medium term plan. These plans are to be formally signed off, as part of the overall plans of the NHS Wales Health Collaborative, by NHS Wales chief executives, meeting as the Collaborative Executive Group, before the end of 2020/21.

The Network will lead and coordinate much of the activity required, but will need to do so in close partnership with NHS Wales organisations and WG. Some action will require formal system-wide approval. Where possible, leadership and indicative timescales for each recommendation are specified, but in some cases this requires further consideration.

Much of the work described will be influenced by, and will need to align with, the forthcoming National Clinical Framework and National Quality Framework.

### 3.1 Minimising the impact of COVID

Action	Lead	Timescale
Ensure high levels of vaccination in the workforce delivering cardiac services	Vaccination programme HBs	Q4 20/21
Ensure continued strict adherence to infection prevention and control measures throughout cardiac patient pathways	HBs	Ongoing

### 3.2 Workforce

Action	Lead	Timescale
In developing plans for recovery, including the addressing of backlogs, recognise the profound impact that the pandemic has had on the NHS Wales workforce: <ul style="list-style-type: none"> <li>Objectives and targets set should be realistic and achievable</li> <li>A holistic package of support measures should be further developed, implemented and promoted for the NHS Wales workforce</li> </ul>	WG/HBs  HEIW (this is a wider 'whole system' issue that is already being progressed)	Ongoing  TBC
Progress work with HEIW, health boards and WG (via Dee Ripley) to address skill mix and staffing issues in cardiology: <ul style="list-style-type: none"> <li>progress work across NHS Wales and with Swansea University to expand the cardiac physiology workforce (proposals to be taken to the NHS Wales Collaborative Executive Group in February for chief executive approval)</li> <li>develop a case for strengthening the heart failure nursing and community rehabilitation workforce</li> <li>determine if there any further changes in workforce models that need consideration over the medium term</li> </ul>	Network (in close liaison with HEIW)	Q4 20/21  Q4 20/21 Q1 21/22  Ongoing

### 3.3 Data and informatics

Action	Lead	Timescale
<p>Progress work between the Wales Cardiac Network, health boards and NWIS to deliver improvements in cardiac informatics to improve patient care and the management and assurance of the delivery of cardiac services:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• develop consistent data definitions (including those relating to aspects of waiting times) within the NHS Data Dictionary to facilitate the real time monitoring of the performance of cardiac services</li> <li>• ensure that cardiac services are appropriately included in the non-COVID data hub being implemented by NWIS</li> <li>• ensure further improvements in cardiac data collection, analysis and presentation, including via the use of the National Data Repository (NDR) to populate appropriate dashboards</li> <li>• ensure ongoing development of informatics support for remote consultation</li> <li>• progress work to ensure consistent access to and use of the Welsh Clinical Portal (WCP) by cardiologists to facilitate the management of patients and related communications (including, specifically, the ability to record and access patient risk level and priority level scores/assessments to facilitate a risk based approach to pathways – see below)</li> <li>• ensure the introduction of electronic test requesting (ETR) and the roll out of electronic hospital to hospital referrals within cardiology</li> </ul>	<p>Network (working closely with NWIS)</p>	<p>TBC (in conjunction with NWIS)</p>

### 3.4 High value, prudent healthcare and recovery

Action	Lead	Timescale
<p>Working through the Wales Cardiac Network, develop a 'recovery plan' for cardiac services:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• maximising remote patient consultations and technology-enabled discussion between primary and secondary care, including via the use of Consultant Connect</li> <li>• adjusting the threshold for accepting referrals from primary care to be seen in clinics (in close liaison with primary care)</li> <li>• engaging with primary care to develop primary care led solutions</li> <li>• ensuring the delivery of advice and guidance to primary care in a timely fashion (e.g. using WCP and e-referrals)</li> <li>• minimising low value investigations in low risk populations</li> <li>• maximising the appropriate use of remote monitoring technologies in the community</li> <li>• appropriate matching of cath lab demand and capacity</li> </ul>	<p>Network (in support of the Heart Conditions Implementation Group)</p>	<p>Q4 20/21 Q1 21/22</p>
<p>Convene an all Wales 'cardiac summit' in March/April to review the emerging whole system recovery plan (primary, secondary and tertiary care) and agree immediate and longer term actions to ensure the provision of:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• timely diagnosis</li> <li>• responsive acute cardiac care</li> <li>• ability to effectively manage chronic disease, including heart failure</li> </ul>	<p>WG</p>	<p>Q4 20/21 Q1 21/22</p>

### 3.5 Diagnostic services

Action	Lead	Timescale
Ensure that, in prioritising provision of diagnostic services in response to COVID pressures, decisions are made that reflect risk of harm across major conditions, including cardiac	HBs	Ongoing
Assess CT coronary angiography (CTCA) demand and capacity and develop a case to expand capacity to meet appropriate demand and reduce patient recovery times as part of more prudent pathways. To address: <ul style="list-style-type: none"> <li>radiographer skills/training</li> <li>access to CT scanner time</li> </ul>	Network	Q4 20/21 Q1 21/22
Ensure that the need for timely cardiac diagnosis is factored into wider consideration of diagnostic service provision in Wales, including consideration of the development and implementation of 'community diagnostic hubs'	TBC	Ongoing

## 4 Reflections following the review

Since the Review of Essential Cardiac Services was conducted, earlier drafts of this report have been received and considered by:

- Essential Services Steering Group (discussed at meeting)
- Essential Services Group members (circulated for comment)
- Planning and Response Group (discussed at meeting)
- Acute Secondary Care Sub Group (provided to members)
- Directors of Planning Peer Group (provided to members)
- Wales Cardiac Network Manager and Clinical Lead
- Welsh Government Policy Lead and other colleagues

Constructive feedback has been received from members of the above groups, both during relevant meetings and subsequently. Some of the feedback received has been reflected in amendments and additions to the above sections of this report. Other feedback has led to the following reflections on the conduct of the review, which will be used by the Essential Services Steering Group to inform the conduct of, and participation in, future similar reviews:

- The review was too focused on the secondary care aspects of cardiac services, at the expense of consideration of primary care and

prevention, in particular. However, it will be important to ensure recovery planning has a holistic, whole system approach. Future reviews would benefit from more emphasis on primary care and more involvement from primary care colleagues.

- Many of the themes, lessons and recommendations arising from the review can be applied, or adapted, more generically across other service areas. This is both a strength of the review and a potential weakness. Future reviews should consider generic issues, but also seek to identify more service-specific insights and generate related recommendations.
- Some questions have been raised about the timing of the cycle of 'deep dive' essential services reviews and how this relates to the timing of the issuing of planning guidance and the development and submission of health board plans. The nature of the reviews, however, necessitates that they are conducted sequentially over a period of time and the timing of their starting was affected by the progress of the pandemic and the point reached in the work of the Essential Services Group. It is recognised that this will result in timing mismatches, but these cannot be avoided.

## Appendix 1 – Written submission from the Wales Cardiac Network



Deep Dive - Cardiac  
Services 151222 FIN

## Appendix 2 – Participants in review

Mark Dickinson, Chair, Essential Services Group, NHS Wales Health Collaborative

Jan Davies, Chair, Essential Services Group, Welsh Government

Steve Davies, Wales Cardiac Network Manager

Cath Bridges, Head of Healthcare Quality and Development, Welsh Government

Nicola Davies, Planning and Delivery lead, Welsh Government

Jon Goodfellow, National Clinical Lead, Wales Cardiac Network

Caroline Lewis, Policy lead, Cardiac, Welsh Government

Julie McCabe, Assistant Director, Delivery Unit

Karen Preece, Director of Planning, WHSSC

Dee Ripley, Deputy Chief Scientific Officer, Welsh Government

Rhian Williams, Head of Patient Experience, Welsh Government

Tom Vedmore, Secretariat, Essential Services Group, Welsh Government

Holly Williams, Secretariat, Essential Services Group, Welsh Government





GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Essential Services Steering Group

## *Review of Essential Children's Services*

### March-May 2021

**Authors:** Mark Dickinson and Janet Davies, Co-Chairs

**Date:** 21 June 2021

**Version:** 3a (FINAL)

**Purpose of Document:**

This paper reports on a Review of Essential Children's Services conducted by the Essential Services Steering Group, with the support of NHS staff and Welsh Government officials.

The background to, conduct of, and key findings resulting from, the review are summarised and a number of recommendations are made.

## Executive Summary

The following children's services were reviewed:

- 1. Immunisation and Screening (for school aged children)**
- 2. Access to General and Specialist Surgical Services**
- 3. Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS)**
- 4. Safeguarding**

This set of services was chosen to provide an overview of services which encompass preventative services and services that meet both acute physical and mental health needs, including specialist/tertiary elements.

Services are typically categorised as 'emergency', 'urgent', 'soon' or 'routine'. Essential services, however, include services from all of these categories. The key point being whether loss of access to services may be life threatening or significantly life impacting. This is particularly relevant for children, where a lack of timely access to preventative or treatment services can result in an adverse lifelong impact.

Although SARS-CoV-2 has minimal direct impact on the paediatric population, the pandemic has had a significant impact on the ability of children to access services, including essential services. It is, therefore, vital that when Boards are faced with prioritising and making difficult choices and decisions that the needs of children and young people are considered within the overriding ethical principles.

It is important to note that there are around 35,000 births a year in Wales. Therefore, any one school year can have a cohort of that size and accessing that number of pupils requires intensive planning.

To inform the review, written and numerical evidence was collected and a series of review meetings were held between members of the Essential Services Steering Group and relevant clinicians, officials and others.

Key themes emerging from the review are summarised below.

### Immunisation and Screening

- There appeared to have been an assumption by health boards that, when schools were closed, school nurses were largely not required. There was, therefore, a widespread redeployment of school nurses in support of the COVID response, with a significant impact on the maintenance of essential immunisation and screening services to children as a result
- Human Papillomavirus (HPV), MenACWY and Td/IPV teenage booster vaccine coverage rates have fallen compared with previous years, with a variable picture across health boards

## **Vision and Hearing Screening**

- From the evidence provided, both vision and hearing screening services have not been maintained to any significant degree

## **General and Specialist Surgery**

- The pandemic has had a significant impact on the ability of children to access both specialist and non-specialist surgical services, across all the surgical specialties
- The impact has been greater for children accessing surgical services in Wales than for Welsh children accessing services in England

## **Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS)**

- CAMHS services (both primary care and specialist CAMHS) were positioned as 'essential services' during the pandemic and a range of measures were put in place including additional investment, expanding support for low level mental health issues, and providing additional surge capacity. There were effective whole system governance arrangements in place and close oversight maintained
- Overall, services remained open and accessible throughout the pandemic but with adapted service models. Whilst referrals to specialist CAMHS remain higher than in pre-pandemic levels, services are more challenged by the acuity of presentations and the higher prevalence of eating disorders
